

Cofnodion cyfarfod y **CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 15 Mawrth 2023, am 6.00pm.

PRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE,
Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney,
Mrs. J. Hughes, A. R. James, K. R. Jones, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor,
Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, V. Roberts, A. J. Rutherford,
D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

147. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker a Miss S. L. Roberts.

148. COFNODION

Cadarnhau bod cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau yn gywir, fel a ganlyn (copïau ynghlwm):

Cyfarfod y Cyngor - 15 Chwefror 2023 - Cofnodion rhifau 110-125

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine a **PHENDERFYNNWYD** eu bod yn gofnodion cywir.

Y Pwyllgor Cynllunio - 15 Chwefror 2023 - Cofnodion rhifau 43-45

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons a **PHENDERFYNNWYD** eu bod yn gofnodion cywir.

149. YSBYTY FRENHINOL ALEXANDRA – CYFARFOD GYDA CHYNRYCHIOLWYR BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

Ymhellach i gofnod rhif 107 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2023, croesawodd y Maer Gyfarwyddwr Interim Gwyddor Iechyd a Therapiau y Bwrdd Iechyd, Mr Gareth Evans a Chyfarwyddwr Iechyd Cymuned Integredig Conwy a Sir Ddinbych, Ms Libby Ryan-Davies, i'r cyfarfod a'u gwahodd i roi cyflwyniad i'r aelodau.

Rhoddodd Mr Evans ddiweddariad ynghylch achos busnes yr ysbyty newydd, gan ddweud fod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at yr Ymddiriedolaeth ym mis Ionawr 2023, yn gofyn dau gwestiwn i'r Ymddiriedolaeth Iechyd.

Un oedd gofyn a oedd achos busnes Ysbyty Alexandra yn flaenoriaeth iddynt, a chadarnhaodd yr Ymddiriedolaeth ei fod yn un o chwe blaenoriaeth rhanbarthol ac y cytunwyd ar gynllun 10 mlynedd wedi'i seilio ar y blaenoriaethau hyn yn ddiweddar.

Yn ail, roedd Llywodraeth Cymru yn dymuno cael gwybod am y gefnogaeth i'r achos busnes gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Cadarnhaodd yr Ymddiriedolaeth y derbyniwyd llythyr o gefnogaeth gan y Bwrdd Partneriaeth ac y bwriadwyd gwneud rhagor o waith gyda'r Bwrdd gan ei fod yn y broses o lunio cynllun 10 mlynedd yn amlinellu'r buddsoddi cyfalaf yng Ngogledd Cymru.

Cynghorodd Mr Evans eu bod wedi rhoi'r atebion i'r cwestiynau hyn i Lywodraeth Cymru a'u bod yn aros am benderfyniad yn awr.

Yna gwahoddodd Mr Evans a Ms Ryan-Davies yr aelodau i holi cwestiynau a chafwyd yr atebion a ganlyn:

- Mae cynllun yr ysbyty yn un o'n chwe prif flaenoriaeth, y cyfan ar wahanol gamau o ran eu hachos busnes, ac nad oedd trefn blaenoriaeth ymhlith y chwech. Mae achos Ysbyty Alexandra yn 'barod i fynd i'r popty' ar hyn o bryd.
- Cydnabuwyd fod yr amser a gymrwyd i fwrw ymlaen gyda'r cynllun wedi bod yn sylweddol ac yn rhwystredig.
- Cyflwynwyd achos busnes tri cham, gyda'r trydydd yn cynrychioli'r cam terfynol, a gyflwynwyd ddwy flynedd yn ôl.
- Mae costau adeiladu wedi cynyddu ers hynny, ynghyd â'r costau cysylltiedig ychwanegol yn dilyn y penderfyniad i ehangu'r cynllun i gynnwys Uned Mân Anafiadau.
- Y byddai'r gwasanaethau i'w darparu yn yr ysbyty yn cynnwys mwy o nyrsio cymuned / nyrsys ardal i allgleifion, ynghyd ag amrywiol wasanaethau eraill i allgleifion.
- Bydd yr ysbyty yn gwasanaethu fel canolfan ragoriaeth ar gyfer darpariaeth ddeintyddol yn y gymuned, gwasanaethau iechyd rhywiol, ward i roi cyffuriau trwy'r gwythiennau, gwella lefel y gwasanaethau diagnostig (pelydr X ac uwchsain), gwella'r gwasanaethau i bobl hŷn a Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed (CAMHS).
- Rhagwelwyd 100,000 o weithgareddau ar y safle bob blwyddyn.
- Mae'r safle'n addas i'r posibilrwydd o ddarparu gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau arferol. Roedd hyn yn galw am ragor o drafodaethau gyda darparwyr gofal preifat.
- Bod sgôp yr achos busnes yn nodi lefel uchel o ddarpariaeth a gynlluniwyd, ond roedd trafodaethau manwl yn digwydd ledled Conwy a Sir Ddinbych ynghylch darparu gwasanaethau aciwt mewn safleoedd amgen fel yr un yma er mwyn galluogi gwell mynediad at wasanaethau i gleifion yn lleol.
- Roedd moderneiddio gwasanaethau a darpariaeth yn amcan hefyd, i ddarparu gwell gofal ac i ddenu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i swyddi ledled Gogledd Cymru yn ystod y cyfnod hwn ble mae recriwtio'n heriol.
- Maent yn parhau i siarad gyda a rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i wneud penderfyniad.

- Mae'r oedi ers cyflwyno'r achos busnes ddwy flynedd yn ôl wedi bod oherwydd cyfyngiadau ar gyllid cyfalaf ar lefel Llywodraeth Cymru.
- Chris Stockport yw'r Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio yn y Bwrdd lechyd ac ef sy'n arwain ar y prosiect hwn, ond mae'r cyfrifoldeb yn un y Bwrdd lechyd yn ei gyfanrwydd.
- Nid oes gan sefyllfa ariannol y Bwrdd lechyd ei hun unrhyw ddylanwad ar y cynllun.
- Agorwyd yr ysbyty newydd yn Nhreffynnon yn 2009, ymhell cyn unrhyw gynlluniau i ailddatblygu Ysbyty Frenhinol Alexandra ac roedd y cyfleusterau newydd yn yr ysbyty yn Ninbych yn gyfleusterau newydd yn unig ac nid adeilad newydd, felly nid oeddynt wedi'u blaenoriaethu cyn y cynllun hwn.
- Yn amlwg mae datblygiadau diweddar yn y Bwrdd lechyd yn peri pryder i bawb, ond roeddynt o'r farn y gellir ymddiried yn y Bwrdd i wario'n ddoeth a chyflawni'r prosiect. Fodd bynnag, penderfyniad Llywodraeth Cymru yn y pen draw yw ymddiried yn y Bwrdd ac yn y cynllun hwn.

Diolchodd y Maer i Mr Evans a Ms Ryan-Davies am eu presenoldeb, ar ran yr holl aelodau.

150. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at ddigwyddiadau yr oedd hi a'r Dirprwy Faer wedi bod ynddynt yn ystod y mis diwethaf (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), yn enwedig codi Baner Heddwch Cenhedloedd y Gymanwlad yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy.

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at Orymdaith a noson gyflwyno Cadetiaid y Môr y Rhyl, yr oedd hi wedi'i fwynhau'n fawr.

Gofynnodd aelod a oedd y Maer yn cael gwahoddiad i'r cinio busnes blynyddol a drefnwyd gan Gyngor Sir Ddinbych?

Dywedodd y Maer a Chlerc y Dref nad oeddynt yn cofio derbyn gwahoddiad i'r digwyddiad erioed.

Roedd yr aelodau o'r farn y byddai gwahoddiad o fudd i'r Cyngor Tref a busnesau lleol fel ei gilydd, a gofynnwyd i Glerc y Dref gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i ofyn am estyn gwahoddiad i'r Maer yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD y byddai Clerc y Dref yn gofyn i Gyngor Sir Ddinbych estyn gwahoddiad i'r Maer i fynd i'r digwyddiad y flwyddyn nesaf.

151. CANSLO CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL I'W GYNNAL AR 1 MAWRTH 2023

Ymhellach i ganslo cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a oedd i'w gynnal ar 1 Mawrth 2023, gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau gadarnhau'r penderfyniadau a ganlyn a wnaed gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol dan awdurdod dirprwyedig:

5.1 **ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – MIS CHWEFROR 2023 (ATODLEN A)**

Taliadau a gymeradwywyd gan y Cadeirydd dan Atodlen A (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

5.2 **AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY – MIS CHWEFROR 2023 (ATODLEN B)**

Taliadau a gymeradwywyd gan y Cadeirydd dan Atodlen B (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r penderfyniadau a wnaed gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol.

152. **ADOLYGU CYLLUN Y DREF – HYRWYDDWR IEUENCTID**

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a ganslwyd, esboniodd Clerc y Dref fod penodi Hyrwyddwr Ieuencid yn un o'r uchelgeisiau a gynhwyswyd yng Nghynllun y Dref, ond nad oedd y penodiad wedi'i wneud.

Cynghorodd Clerc y Dref fod aelodau wedi mynegi dymuniad i ystyried y swydd yn fanwl yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol, ond y byddai'n rhaid llunio ac ystyried Disgrifiad Swydd cyn y gellid penodi.

Cytunodd yr aelodau eu fod yn dymuno bwrw ymlaen gyda phenodi i'r swydd hon er mwyn ymgysylltu'n well â phobl ifanc y dref.

PENDERFYNWYD y byddai Clerc y Dref yn llunio Disgrifiad Swydd drafft ac yn dod ag ef gerbron y Cyngor i'w gymeradwyo cyn y gellid gwneud penodiad.

153. **ADOLYGIAD RISGIAU BLYNYDDOL 2022 / 23 A BLAEN GYNLLUN 2023/24**

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a ganslwyd, cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i'w gwaith a wnaed gan yr is-bwyllgor yn ystod 2022/23 a'i Flaen Gynllun arfaethedig ar gyfer 2023/24.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Adolygiad Risgiau 2022/23 a'r Blaen Gynllun ar gyfer 2023/24.

154. **ATODLEN Y TALIADAU RHEOLAIDD (ATODLEN A) YN 2023/24**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau rheolaidd yn 2023/24 ac yn gofyn am awdurdod i wario ar yr eitemau a restrwyd.

Cyflenwr a disgrifiad	Swm £	Amllder
Cyflogau net staff Cyngor Tref y Rhyl	8,300	Misol
Didyniadau cyflogau i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi	3,600	Misol
Cynllun Pensiwn Clwyd – Cyngor Sir y Fflint	4,600	Misol

Cyflenwr a disgrifiad	Swm £	Amllder
Cyngor Sir Ddinbych – Treth Gyngor (10 mis)	800	Misol
Ffioedd bancio HSBC	15	Misol
Gwasanaethau ffôn a band eang BT	1,080	Chwarterol
Tesco Mobile - ffonau symudol	48	Misol
Shire Leasing – system ffôn Avaya	337	Chwarterol
Cyngor ar Fudd-daliadau – Swyddog Apeliadau	917	Misol
Cyngor ar Bopeth – Swyddog Tlodi Tanwydd	2,000	Chwarterol
Cyngor Sir Ddinbych – benthyciad SC2	32,037	3 y flwyddyn
Cyngor Sir Ddinbych – Partneriaeth Camerâu Teledu Cylch Cyfyng	15,000	Yn flynyddol

PENDERFYNWYD cymeradwyo Atodlen A a'r awdurdod i wario ar yr eitemau a restrwyd yn Atodiad A.

155. **AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Clerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

Rhif taleb	Cyflenwr	Manylion y cyflenwad	Swm £
1606	Cynghorydd Mrs D. L. King	Treuliau'r Maer – mis Chwefror 2023	72.00
1607	Cyngor Sir Ddinbych	Cytundeb goleuadau 2022/23	11,841.60
	Cyfanswm Atodlen B		£11,913.60

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r atodlen a gwneud y taliadau, wedi'u llofnodi gan ddau gynghorydd.

156. **PENODI ARCHWILWYR MEWNOL AC ALLANOL AM Y FLWYDDYN 2022/23**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) ynghylch penodi archwilwyr y Cyngor.

PENDERFYNWYD:

- (i) Cymeradwyo JDH Business Services fel yr Archwilwyr Mewnol.
- (ii) Cymeradwyo penodi Swyddfa Cyllid Cymru fel yr Archwilwyr Allanol.
- (iii) Yr aelodau i hysbysu Clerc y Dref am unrhyw fuddiant personol neu fuddiant busnes yn JDH Business Services neu Swyddfa Archwilio Cymru.

157. MYNEGAI AMDDIFADEDD LLUOSOG CYMRU – PENODI GWEITHGOR

Ymhellach i gofnod rhif 122 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2023, cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi'r cefndir i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i'r aelodau ac yn awgrymu cylch gwaith ar gyfer sefydlu Gweithgor gan y Cyngor Tref.

Awgrymodd Clerc y Dref y byddai'n rhaid i'r cynghorwyr a enwebir ymrwymo i swm arwyddocaol o waith ac amser, yn cynnwys cyfarfodydd wythnosol, ac edrych ar y ffigurau'n fanwl i ddechrau, ac yna ddeall yr ymdrechion i fynd i'r afael â nhw, adnabod unrhyw wersi i'w dysgu o ardaloedd eraill a llunio cynllun o gamau gweithredu a thargedau i geisio gwella safle'r Rhyl yn y Mynegai.

Awgrymodd yr aelodau y dylai'r gweithgor edrych ar wefan Ystadegau Cymru a chanlyniadau'r Cyfrifiad diwethaf.

PENDERFYNWYD enwebu'r Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Ms J. Hughes a Ms J. L. McAlpine yn aelodau'r Gweithgor.

158. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD eithio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.

159. COFNODION CYFRINACHOL

Derbyn y cofnodion a ganlyn (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) er gwybodaeth, a chymeradwyo'r argymhellion a gynhwysir ynddynt:

Yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau - 27 Chwefror 2023 - Cofnodion rhifau 25-31

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion a'r argymhellion a gynhwyswyd ynddynt.

160. DIWEDDU'R CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer:

Dyddiad: